# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2021

Amser: 08.48 - 12.47

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12516

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Alun Davies AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Webb, Llywodraeth Cymru<br>Jonathan Price, Llywodraeth Cymru<br>Nicola Moorhouse, Llywodraeth Cymru<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Sue Leake, Llywodraeth Cymru<br>Amanda Whittle, Llywodraeth Cymru<br>Glyn Roberts, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Hannah Browne-Gott, Llywodraeth Cymru<br>Rhian Davies, Llywodraeth Cymru<br>Dafydd Meurig, Cyngor Gwynedd<br>Heledd Fflur Jones, Cyngor Gwynedd<br>Gareth Jones, Cyngor Gwynedd |
| Staff y Pwyllgor: | Manon George (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2. Cafwyd datganiad o fuddiannau perthnasol gan Alun Davies AS a Mabon ap Gwynfor AS.

## 2 Sesiwn dystiolaeth gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i drafod yr adroddiad "Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol"

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4, 6, 7 ac 8 yn y cyfarfod

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn friffio dechnegol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

4.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol o dan arweiniad swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 5 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 2

5.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Dirprwy Arweinydd, Cyngor Gwynedd

Heledd Fflur Jones, Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd

Gareth Jones, Pennaeth Adran cynorthwyol, Adran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

6.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

### 6.2 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

6.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

### 6.3 Llythyr gan Jonathan Edwards AS ynghylch ystadau o dai anorffenedig ac allanoli rheoli adeiladu

6.3.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Jonathan Edwards AS mewn perthynas ag ystadau o dai anorffenedig a rhoi'r broses o reoli adeiladau ar gontract allanol.

### 6.4 Llythyr gan Rhys ab Owen AS ynghylch cladin a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau

6.4.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Rhys ab Owen AS ynghylch cladin a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau, a chytunodd i ymateb.

## 7 Trafod y dystiolaeth a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan eitem 2

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd ac at randdeiliaid ar faterion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 8 Trafod yr adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Adeiladau

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a thrafod newidiadau i'w gwneud.

## 9 Y wybodaeth ddiweddaraf am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

9.1 Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) a bu’n trafod materion i'w codi yn ei adroddiad drafft.

## 10 Ymchwiliad i ail gartrefi – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 4 a 5

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.